

Sut i ddefnyddio dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â rhywiaeth

Gall mentrau unigol a digwyddiadau un-tro i herio rhywiaeth wneud gwahaniaeth go iawn, ond mae newid cynhwysfawr, hirdymor yn gofyn am 'ddull ysgol gyfan'. Mae hyn yn golygu bod gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn cael ei lywio gan fframwaith trosfwaol ac mae'n cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol - gan gynnwys staff, myfyrwyr, rhieni a llywodraethwyr. Trwy gymryd agwedd ysgol gyfan, gall ysgolion weithio i sicrhau bod merched a bechgyn yn dysgu ac yn byw yn gyfartal.

3 cham tuag at ddull ysgol gyfan

1. Rhowch FFRAMWAITH yn ei le

Dylai gweithredu i fynd i'r afael â rhywiaeth yn yr ysgol gael ei danategu gan strategaeth, wedi'i chefnogi gan bolisi'r ysgol, a'i yrru gan arweinyddiaeth. Bydd y bensaernïaeth sefydliadol hon yn eich galluogi i flaenoriaethu gweithredoedd a sicrhau dull cyson, cydlynol o sicrhau newid.

Camau gweithredu a argymhellir:

- » Mabwysiadu cynllun gweithredu ysgol gyfan.
- » Diwygio polisiau a gweithdrefnau presennol i adlewyrchu nod ac amcanion cynllun gweithredu'r ysgol gyfan.
- » Penodi arweinydd a/neu gweithgor sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad a monitro cynllun gweithredu'r ysgol gyfan.

Adnoddau UK Feminista

- Templed cynllun gweithredu ysgol gyfan
- Canllaw integreiddio polisi
- Archwiliad Dull Ysgol Gyfan

Dadlwythwch yr adnoddau hyn yn ukfeminista.org.uk/resources-hub

2. Hyfforddi ac arfogi ATHRAWON

Dylai fod gan holl staff yr ysgol yr wybodaeth, yr adnoddau a'r hyder i fynd i'r afael â rhywiaeth.

Camau gweithredu a argymhellir:

- » Darparu hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i staff ar sut i herio rhywiaeth.
- » Sicrhewch fod yr holl staff yn ymwybodol o gynllun gweithredu ysgol gyfan ac yn ymgysylltu ag ef.
- » Darparu adnoddau ymarferol i staff ar sut i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

Adnoddau UK Feminista

- Hyfforddiant DPP ar gael gan UK Feminista
- Awgrymiadau i athrawon ar herio rhywiaeth yn yr ystafell ddosbarth uwchradd
- Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Dadlwythwch yr adnoddau hyn yn ukfeminista.org.uk/resources-hub



3. Cefnogi MYFYRWYR

Dylai pob myfyriwr gael ei gefnogi i ddysgu am rhywiaeth, i riportio digwyddiadau ac i weithredu dros gydraddoldeb.

Camau gweithredu a argymhellir:

- » Rhedeg gweithgareddau ystafell ddosbarth ar aflonyddu rhywiol, stereoteipio ar sail rhyw ac iaith rywiaethol.
- » Gwneud pob myfyriwr yn ymwybodol o gynllun gweithredu ysgol gyfan a pholisi aflonyddu rhywiol - gan gynnwys sut i riportio digwyddiadau.
- » Annog a chefnogi myfyrwyr i gymryd camau cadarnhaol yn erbyn rhywiaeth, megis sefydlu gr p ffeministaidd neu gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth.

Adnoddau UK Feminista

- Syniadau ar gyfer gweithredu myfyrwyr
- Gweithgareddau ystafell ddosbarth

Dadlwythwch yr adnoddau hyn yn ukfeminista.org.uk/resources-hub